24 Stryd y Coleg
Rhydaman
Sir Gaerfyrddin
SA18 3AF

Ffôn: 01269 595400
Ffacs: 01269 598510

Un Llais Cymru
One Voice Wales

24 College Street
Ammanford
Carmarthenshire
SA18 3AF

Phone: 01269 595400
Fax: 01269 598510

Dear Colleague,

Re: Carmarthenshire Local Development Plan
Community and Town Council Stakeholder Event

In association with One Voice Wales, Carmarthenshire County Council is arranging a Community and Town Councils Stakeholder event aimed at introducing the LDP and its preparatory process.

As I am sure you will be aware the Carmarthenshire Local Development Plan (LDP) is currently being prepared by Carmarthenshire County Council. This is a new type of development plan which will eventually replace the existing Carmarthenshire Unitary Development Plan.

The LDP will cover a fifteen year period, determining how much new housing is developed in the county and where it will be built. It will influence the type and location of new employment opportunities. It will be the principal reference for considering all proposals and planning applications that relate to the development and use of land throughout Carmarthenshire. It will balance the need for new development and investment against the need to conserve and enhance the natural and built environment.

The process for preparing the LDP encourages a wide range of organisations and groups to work with the County Council to help set the broad strategy of the plan from a very early stage of preparation. So while Carmarthenshire County Council as local planning authority is responsible for producing the plan, it is essential that its preparation and content reflect the views and preferences of the community at large, and that it is based on consensus.

This event will provide attendees with an understanding of the new development plan system and guidance on how to most effectively participate throughout the formulation of the plan. The event represents an important early opportunity to develop an understanding of the Local Development Plan from the formulation of its vision, key objectives and strategic context onwards. These are all things which will shape the future use of land within the County. As representatives of the local community, I am sure that you will appreciate the importance of taking part in this event.

The event is open to **all** Community and Town Councils within the LDP plan area including those not affiliated to One Voice Wales.

It is extremely important that your council is involved in contributing from the very earliest stages of plan preparation, before any significant decisions have been made. For this reason I am pleased to invite you to the Community and Town Council Stakeholder Event. This will be held at County Hall, Carmarthen on **Wednesday 4 February 2009**. The event will start at 1.00pm (with tea and coffee served from 12.30am) and continue through until 4.30pm.

The event will be facilitated by staff of Planning Aid Wales, led by its Chief Executive Elwyn Thomas. Planning Aid Wales is an independent provider of planning information, expertise and advice, working to increase public involvement in all aspects of the planning process. They

have extensive experience of organising and managing these types of events – if you want to know more, visit www.planningaidwales.org.uk

I very much look forward to your attendance and would be grateful if you could confirm that your organisation will be represented. In the event that no meetings of your council are scheduled to take place before the 4th February it would be appreciated if you could liaise with your Chairman/Town Mayor in order to ensure that your council is represented at this event.

Please note that there are no parking facilities available at County Hall and delegates will need to use public car parks or the 'Park & Ride' service from Nantyci.

To confirm attendance or should you require any more information about this event, please contact Carmarthenshire County Council's, Forward Planning Section on 01267 228818 or send an email to: forward.planning@carmarthenshire.gov.uk

Yours faithfully

Elfyn Williams,
Development Officer

24 Stryd y Coleg
Rhydaman
Sir Gaerfyrddin
SA18 3AF

Ffôn: 01269 595400
Ffacs: 01269 598510

Un Llais Cymru
One Voice Wales

24 College Street
Ammanford
Carmarthenshire
SA18 3AF

Phone: 01269 595400
Fax: 01269 598510

Annwyl Gyfaill,

Ynghylch: Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin
Digwyddiad i Randdalwyr – Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref

Ar y cyd ag Un Llais Cymru, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn trefnu digwyddiad i Randdalwyr o Gynghorau Cymuned a Chynghorau Tref gyda'r nod o gyflwyno'r Cynllun Datblygu Lleol a'r broses o'i lunio.

Fel y gwyddoch, rwy'n siŵr, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei lunio gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar hyn o bryd. Math newydd o gynllun datblygu yw hwn a fydd, yn y pen draw, yn cymryd lle'r cynllun presennol, sef Cynllun Datblygu Unedol Sir Gaerfyrddin.

Bydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn cwmpasu cyfnod o bymtheng mlynedd, a thrwy gyfrwng y cynllun hwn y penderfynir faint o dai newydd a godir yn y sir ac ymhle y cânt eu hadeiladu. Caiff y cynllun ddylanwad ar y math o gyfleoedd gwaith newydd a fydd ar gael, ynghyd â lleoliad y swyddi hynny. Y cynllun hwn fydd y brif ddogfen gyfeirio o ran ystyried yr holl gynigion a cheisiadau cynllunio sy'n gysylltiedig â datblygu a defnyddio tir ledled Sir Gaerfyrddin. Bydd yn sicrhau bod cydbwysedd rhwng yr angen am ddatblygiadau a buddsoddiadau newydd a'r angen am gynnal a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig.

Mae paratoi'r CDLl yn annog amrywiaeth helaeth o gyrff a grwpiau i weithio gyda Chyngor Sir Caerfyrddin er mwyn helpu i bennu strategaeth eang y cynllun yn gynnar iawn yn y broses baratoi. Felly er taw Cyngor Sir Caerfyrddin, sef yr awdurdod cynllunio lleol, sy'n gyfrifol am lunio'r cynllun, mae'n hanfodol bod ei gynnwys a'r modd y mae'n cael ei baratoi yn adlewyrchu barn a dymuniadau'r gymuned ehangach, ynghyd â'i fod wedi ei seilio ar gonsensws.

Bydd y digwyddiad hwn yn fodd i'r rhai a fydd yn bresennol ddeall system y cynllun datblygu newydd ac yn rhoi cyfarwyddyd iddynt ynghylch sut y gallant gyfrannu'n fwyaf effeithiol drwy gydol y gwaith o lunio'r cynllun. Mae'r digwyddiad yn gyfle cynnar a phwysig i ddod i ddeall y Cynllun Datblygu Lleol o'r cam o lunio ei weledigaeth, i'w brif amcanion a'i gyd-destun strategol ac ymhellach. Mae'r rhain i gyd yn bethau a fydd yn cael effaith ar y modd y defnyddir tir y sir yn y dyfodol. Fel rhywun sy'n cynrychioli'r gymuned leol, rwyf yn siŵr y byddwch yn sylweddoli pa mor bwysig yw hi eich bod yn cymryd rhan yn y digwyddiad hwn.

Mae hwn yn ddigwyddiad i **bob** Cyngor Cymuned a Chyngor Tref yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn gysylltiedig ag Un Llais Cymru.

Mae'n hynod o bwysig fod eich corff yn cyfrannu at y modd y paratoir y cynllun, a hynny o'r camau cyntaf ymlaen, cyn bod unrhyw benderfyniadau sylweddol wedi cael eu gwneud. Felly, mae'n bleser gennyf eich gwahodd i'r Digwyddiad i Randdalwyr – Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref. Fe'i cynhelir yn Neuadd y Sir, Caerfyrddin **Ddydd Mercher, 4 Chwefror 2009**. Bydd yn dechrau am 1.00pm (bydd cyfle i gael te a choffi o 12.30pm ymlaen) a bydd yn para hyd 4.30pm.

Bydd staff Cymorth Cynllunio Cymru yn hwyluso'r digwyddiad, dan arweiniad Elwyn Thomas, eu Prif Weithredwr. Darparwr annibynnol yw Cymorth Cynllunio Cymru, sy'n rhoi cyngor,

arbenigedd, a gwybodaeth am gynllunio, gan weithio tuag at gynyddu cyfraniad y cyhoedd at holl agweddau'r broses gynllunio. Mae gan Gymorth Cynllunio Cymru brofiad helaeth o ran trefnu a rheoli'r mathau hyn o ddigwyddiadau. Os dymunwch gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.cymorthcynlluniocymru.org.uk

Edrychaf ymlaen yn fawr at eich gweld yn y digwyddiad a byddwn yn ddiolchgar pe baech yn cadarnhau a fydd cynrychiolydd/cynrychiolwyr o'ch corff yn bresennol. Os nad oes cyfarfod o'ch Cyngor i gael ei gynnal cyn y 4ydd Chwefror, byddem yn ddiolchgar pe gallech gysylltu â'ch Cadeirydd/Maer Tref er mwyn gofalu bod cynrychiolwyr o'ch Cyngor yn dod i'r digwyddiad hwn.

Sylwch na fydd lleoedd parcio ar gael yn Neuadd y Sir ac y bydd yn rhaid i'r cynrychiolwyr ddefnyddio meysydd parcio cyhoeddus neu'r gwasanaeth 'Parcio a Theithio' o Nant-y-ci.

I gadarnhau a fyddwch yn dod i'r digwyddiad neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y digwyddiad hwn, cysylltwch ag Uned Blaen-gynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin drwy ffonio 01267 228818 neu anfon e-bost at: blaengynllunio@sirgar.gov.uk

Yn gywir

Elfyn Williams,
Swyddog Datblygu